# Categori Addoli ac Addysgu

Rydyn ni'n addoli Duw sy'n caru'r byd a greodd, ac sy'n ein galw ninnau i ofalu amdano. Mae gwneud hynny'n rhan o'n haddoliad a'n tystiolaeth wrth i ni ymateb i greadigaeth sy'n griddfan. Daw'r eglwysi sy'n rhan o Eco Church o ystod eang o draddodiadau, ac er bod hynny'n dod ag amrywiaeth a chyfoeth aruthrol, mae'n golygu bod llunio un arolwg sy'n cwmpasu iaith ac arferion pob traddodiad yn heriol – felly gofynnwn i chi ddehongli'r cwestiynau hyn yn eich cyd-destun penodol eich hun.

Cyfeiriwch at y ddogfen drosolwg Addoli ac Addysgu i gael arweiniad pellach ar gwblhau'r categori hwn. (Saesneg yn unig)

**Noder:** Mae'r ddogfen yma at ddibenion cyfeirio yn unig. I geisio am wobr Eco Church bydd angen copio'r atebion i mewn i'r arolwg arlein (Saesneg yn unig). Ni allwn dderbyn ceisiadau ar bapur.

## Ymrwymiad

1. Mae ein heglwys yn cydnabod ac yn dysgu bod gofal am y cread a gweithredu i roi sylw i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur yn rhan annatod o ffydd, bywyd ac addoliad Cristnogol, ac mae wedi ymrwymo'n ffurfiol i gynllun dyfarniadau Eco Church A Rocha UK.

Ydy / Nac ydy

## Thema 1 – Addoliad a Gweddi

2. Mae ein haddoliad, ein datganiadau cred a'n cerddoriaeth yn cydnabod ac yn dathlu perthynas Duw â'r cread a'i waith ynddo

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth / AMH (*os nad oes gan eich eglwys ddatganiadau cred a/neu gerddoriaeth)*

3. Mae ein heglwys yn dathlu diwrnodau a thymhorau arbennig sy'n ymwneud â gofal am y cread (e.e. Tymor y Creu, Cynhaeaf, Sul yr Amgylchedd, Sul Bendithio'r Caeau, diwrnodau seintiau, gwasanaethau bendithio anifeiliaid, etc.)

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth

4. Mae ein haddoliad yn darparu cyfleoedd i alaru ynghylch difrodi a dinistrio'r cread a chyffesu/edifarhau am ein rhan yn hynny

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth / AMH (*os nad oes gennych chi amser penodol i gyffesu/edifarhau yn eich addoliad)*

5. Mae gofal am y cread wedi'i wreiddio yn y pregethu yn ein heglwys

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth / AMH *(os nad yw pregethu'n rhan o'ch traddodiad neu o dan eich rheolaeth)*

6. Mae ein heglwys yn gweddïo/eiriol dros faterion amgylcheddol byd-eang, cenedlaethol a lleol, a thros y rhai sy'n gweithio i ddiogelu ac adnewyddu'r greadigaeth, ac mae'n darparu anogaeth ac adnoddau ar gyfer gweddi unigol a chymunedol ar y themâu hynny

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth / AMH *(os nad yw gweddïau o eiriolaeth ar y cyd yn rhan o'ch addoliad)*

7. Mae ein heglwys yn addoli yn yr awyr agored, yng nghread Duw (e.e. gwasanaethau rheolaidd, Sul y Blodau, Gwawr y Pasg)

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth

8. Mae ein heglwys wedi'i seilio ar fodel arloesol o addoliad neu 'fynegiant rhydd', neu'n ymgysylltu â model o'r fath sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn yr awyr agored (e.e. Eglwys Coedwig, Eglwys Fwdlyd, Llan Llanast Gwyllt, teithiau cerdded a gweddi, litwrgi myfyrgar)

Ydy – dyna beth ydyn ni / Ydy – rydyn ni'n cefnogi neu'n cynnal un / Nac ydy

9. Mae ein heglwys yn cydnabod bod adnoddau addoli yn cael effaith ar argyfyngau'r hinsawdd a byd natur, ac mae'n dewis adnoddau sydd mor gynaliadwy â phosibl, er enghraifft blodau lleol/tymhorol, trefniadau heb sbwng/ 'oasis', canhwyllau heb danwydd ffosil a gwin organig,

Gan mwyaf / Yn rhannol / Ddim o gwbl / AMH *(os nad ydych chi'n defnyddio adnoddau addoli)*

## Thema 2 – Pobl

10. Mae ein gweinidogion, ein harweinwyr, ein pregethwyr a'n heiriolwyr yn gallu pregethu/addysgu'n hyderus ar ofal am y cread a materion amgylcheddol

Ydyn, pawb ohonyn nhw / Mae angen peth hyfforddiant / Na, ddim o gwbl / AMH *(os nad yw pregethu/addysgu yn rhan o'ch traddodiad neu o fewn eich rheolaeth)*

11. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am ofal bugeiliol (neu bethau cyfatebol) yn ein heglwys yn ymwybodol o'r pryderon amgylcheddol, gan gynnwys eco-bryder, ac yn teimlo eu bod yn gallu ymateb iddynt

Ydyn, pawb ohonyn nhw / Mae angen peth hyfforddiant / Na, ddim o gwbl

12. Mae galwad benodol i weithredu ar faterion amgylcheddol (gan gynnwys Eco Church) yn cael yr un cadarnhad â gweinidogaethau/galwedigaethau eraill (e.e. gofal/gweithredu cymdeithasol) yn ein heglwys ni

Ydy / Nac ydy

## Thema 3 – Addysgu a bod yn ddisgyblion

13. Mae'r paratoad rydyn ni'n ei roi ar gyfer bedydd a/neu gonffirmasiwn a/neu aelodaeth yn ein heglwys yn cynnwys gofal am y cread fel rhan annatod o'r ffydd Gristnogol

Ydy / Nac ydy / AMH *(os nad yw hynny'n rhan o'ch arfer/traddodiad)*

14. Mae gofal am y cread yn rhan o waith ein heglwys gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys ysgolion lle bo hynny'n briodol

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth / AMH (*os nad ydych chi'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc)*

15. Mae'r cyrsiau rydyn ni'n eu cynnal (e.e. yn ystod y Grawys neu'r Adfent, cyrsiau rhagarweiniol i ddisgyblion, grwpiau bychain, grwpiau mewn cartrefi, neu grwpiau astudio) yn cynnwys gofal am y cread fel rhan annatod o'r ffydd Gristnogol

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth / AMH *(os nad yw hynny'n rhan o'ch arfer/traddodiad)*

16. Mae ein heglwys yn croesawu siaradwyr gwadd o sefydliadau amgylcheddol Cristnogol a/neu eglwysi eraill sy'n rhan o Eco Church a/neu arweinwyr amgylcheddol enwadol

Yn rheolaidd / Yn achlysurol / Byth